# CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

## Adroddiad 2021

BRECON BEACONS NATIONAL PARK



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Cadeirydd | 4 |
| Crynodeb Gweithredol | 6 |
| Dangosyddion Perfformiad a Mesurau Allbwn | 9 |
| Rheoli'r Gronfa | 9 |
| Casgliad | 9 |
| Crynodebau o'r Prosiectau | 11 |
| Prosiect Gwirfoddoli Cadwraeth y Bele - Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 11 |
| Cynllun Prentisiaeth Arweinwyr Amgueddfa – Big Pit | 11 |
| Strôc mewn Oedolion Ifanc - Prifysgol Fetropolitan Manceinion | 12 |
| System Trin Da Byw – Cymdeithas Porwyr Glanaman, Pedol & Twrch | 13 |
| Muddy Care | 14 |
| Unedau Dechrau Mân-werthu – Ymddiriedolaeth Castell y Gelli | 17 |
| Rheoli Cynefin Allt yr Esgair – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 18 |
| Gwella Adnoddau a Monitro'r Ystlum Bedol Leiaf – Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent | 19 |
| 44/45 Stryd Fawr, Aberhonddu | 20 |
| Dod i adnabod eich cymdogion – Menter dros Gadwraeth Natur Cymru | 22 |
| Rhwydwaith Treftadaeth a Diwylliannol Aberhonddu – Dyfodol Ôl-Covid | 23 |
| Meddyliau Gwyrdd – Mind Aberhonddu | 25 |
| Offer P□er Batri – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 27 |
| Gwasanaethu Cychod ar Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu | 28 |
| Cynllun Rheoli Garn Goch, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 30 |

# Rhagair y Cadeirydd

Rwyf wedi mwynhau Cadeirio'r Pwyllgor Cronfa  Ddatblygu Cynaliadwy yn fawr iawn dros y flwyddyn ddiwethaf - y gyntaf i mi yn y swydd hon. Er gwaethaf y heriau sylweddol a gyflwynodd Covid 19 dros y 18 mis diwethaf, mae'r Gronfa wedi parhau i weithredu'n effeithiol, gan ddod â buddion gwirioneddol i gymunedau ledled y Parc Cenedlaethol. Er nad ydym wedi gallu cyfarfod wyneb yn wyneb fel Pwyllgor ers peth amser, rwy'n llawn edmygedd o ymrwymiad, yr holl waith caled a gwytnwch fy nghyd Aelodau ar y Pwyllgor a Swyddogion Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Helen Roderick a Ceri Bevan - diolch o galon i bob un ohonoch. Fe  wyddom ni o adborth yr ymgeiswyr gymaint y mae cefnogaeth Helen a Ceri'n cael ei werthfawrogi a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud.

Hoffwn hefyd longyfarch a diolch i ddechreuwyr a rheolwyr y prosiectau cyffrous y byddwch yn darllen amdanyn nhw yn y tudalennau i ddilyn. Rydych chi hefyd wedi parhau i fod yn greadigol ac yn ddyfeisgar, gan sicrhau fod gwaith yn dal ati gymaint ag sy'n bosibl dros y flwyddyn ddiwethaf – yn aml mewn ffyrdd na fyddech chi erioed wedi'i ddychmygu ar y dechrau.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen adroddiad blynyddol 2020 – 21 ac, yn debyg i mi, y byddwch yn cael eich annog, eich ysbrydoli ac yn llawn edmygedd o'r gweithgaredd eithriadol ac eang y mae'r Gronfa yn dal i'w gefnogi.

Cyng Michael J Jones, Cadeirydd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy




ATHLETIC
96

# Crynodeb Gweithredol

Roedd hon yn flwyddyn heriol ac anodd i bawb, a dweud y lleiaf. Yn anorfod, amharodd hynny ar weithredu'r Gronfa, gyda chyfres o gyfnodau clo Covid-19 yn effeithio ar bob prosiect oedd yn cael ei gefnogi. Roedd llawer o rai ar y gweill yn gorfod atal y gwaith neu ddyfeisio ffyrdd newydd o ddarparu ac mae cynigion newydd yn arafach yn dod ymlaen. O ganlyniad talwyd a dyrannwyd llai o grantiau.

Mae prosiectau wedi dal i godi i wynebu'r heriau newydd fodd bynnag – gydag ymatebion hynod o ddyfeisgar i'r byd sy'n newid o'u cwmpas. Mae eu gwytnwch a'u brwdfrydedd parhaus wedi bod yn ysbrydoledig. Ni all darparu ar lein gymryd lle gweithgareddau awyr agored, ond mae wedi golygu fod cyfranogwyr, yn aml, wedi gallu cadw mewn cysylltiad ac mae rhai eraill, efallai na fydden nhw wedi gwneud fel arall, wedi ymuno.

Nod y gronfa yw datblygu a phrofi dulliau o gyrraedd ffordd fwy cynaliadwy o fyw mewn cefn gwlad o harddwch naturiol ac o amrywiaeth helaeth ble mae nodweddion lleol diwylliant, bywyd gwyllt, tirwedd, defnydd tir a chymunedau'n cael eu cadw a'u gwella.

Amcanion y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yw:

- archwilio ffyrdd arloesol o gyfrannu cymaint ag sy'n ymarferol at weledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru gynaliadwy a chael gwared ar yr hyn sy'n gallu rhwystro cynaliadwyedd
- cyfuno datblygu cynaliadwy gyda nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a dangos cyfraniad synnwyr cryf o le ac adnabyddiaeth leol i lesiant a byw'n gynaliadwy.


## Aelodau Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy 2020 - 21

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 6 Aelod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol a 9 arbenigwr ar bynciau lleol sy'n darparu cefnogaeth trwy'r Panel Grantiau Ymgynghorol. Rydym yn ddiolchgar am yr wybodaeth, crebwyll a'r ymrwymiad sydd gan bob aelod o'r Pwyllgor.

| **Awdurdod y Parc Cenedlaethol** | **Panel Grantiau Ymgynghorol** |
| --- | --- |
| Cyng Michael J Jones, Cadeirydd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy | Mike Wright<br>Y Grwp Siartr |
| Cyng Malcolm Colbran (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) | Cyng Bernard Watkins<br>Cyngor Cymuned Maescar |
| Chris Coppock (Llywodraeth Cymru) | Sarah Coakham<br>Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Aled Edwards (Llywodraeth Cymru) | Abi McCullough – Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys |
| Cyng Edwin Roderick (Cyngor Sir Powys) | Andrew King<br>Cofnodydd Adar Brycheiniog |
| Cyng Ann Webb (Cyngor Sir Sir Fynwy) | Cllr Chris Walsh, Cyngor Tref Aberhonddu |
| | David Jones, Undeb Amaethwyr Cymru |
| | Cllr. Richard Dixon<br>Cyngor Cymuned Llanelli |
| | Margaret Underwood<br>Y Sector Gwirfoddol |








- meithrin gallu mewn cymunedau lleol a datblygu a chynnal prosiectau cymunedol sy'n hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy.
- datblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynaliadwyedd ymysg trigolion ac ymwelwyr a hyrwyddo newid positif mewn ymddygiad.

Prosiectau llwyddiannus y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yw'r rhai sy'n:

- dangos cynaliadwyedd trwy gysylltu materion cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd mewn cyfranogaeth gyhoeddus
- dangos bod ganddyn nhw gefnogaeth neu gyfranogiad gwirioneddol cymunedau yn y Parc
- cefnogi un neu fwy o amcanion y gronfa
- dangos eu bod yn cyfrannu at themâu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a strategaethau perthnasol lleol a chenedlaethol.
- dod â sefydliadau ynghyd mewn partneriaeth i daclo problemau.
- trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ymdrin â'r cyhoedd

Talwyd £75,575 i 15 o brosiectau yn 2020 - 21. Aeth £14,475 (19%) o hynny ar bedwar prosiect yn cael eu harwain gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn ogystal â'r gyllideb a ddyrannwyd i'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy gan yr Awdurdod, dyrannodd Llywodraeth Cymru £42,100 yn ychwanegol ar gyfer prosiectau cyfalaf y Gronfa a wnaed yn ystod y flwyddyn. Effeithiodd Covid 19 yn drwm ar ddatblygu a gweithredu prosiectau gyda £49,439 o'r gyllideb heb ei dyrannu ar ddiwedd y flwyddyn a bydd £57,492 a ddarannwyd i brosiectau erbyn hyn yn cael ei wario yn ystod 2021/22. Roedd cyfanswm y gwariant yn y flwyddyn o £75,575 yn dangos gostyngiad o 66% mewn gwariant o lefel 2019/20.

Fesul ardal o fewn y Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, roedd y gwariant fel a ganlyn:



## Dangosyddion Perfformiad a Mesurau Allbwn
## Ebrill 2020 – Mawrth 2021

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | Ebrill 2020 – Mawrth 2021 |
|---|---|
| • % o'r penderfyniadau ar geisiadau wedi'u cwblhau a hysbyswyd i'r ymgeisydd ar amser - y targed yw 95% o fewn 14 diwrnod o gael eu hystyried gan y Panel ar gyfer ceisiadau dros £2,000<br>• O dan £1,000 – 28 diwrnod o dderbyn cais wedi'i gwblhau. | 100% o'r holl geisiadau (o dan a thros £1,000) wedi'u hysbysu o fewn 14 diwrnod o'r Panel.<br>100% |
| • Nifer o swyddi a grëwyd ac a diogelwyd (Llawn neu ran amser gan gynnwys dros dro a pharhaol) | 10 |
| • Y nifer o gyfleoedd i wirfoddoli | 8,566 hours |

| MESURAU ALLBWN | Ebrill 2020 – Mawrth 2021 |
|---|---|
| • Arian a ysgogwyd o ffynonellau eraill<br>• Gwerth mewn rhoddion, nwyddau a gwirfoddolwyr<br>• Cymhareb: Arian Cyhoeddus / Preifat | Cymhareb 1:1.6 (ar grantiau a dalwyd)<br>£128,487<br>1: 4.398 |
| • Nifer y prosiectau a oedd yn cynnal dau neu fwy o egwyddorion allweddol datblygu cynaliadwy fel sy'n cael ei ddangos yn y canllawiau gweithredol. | 100% |

Mae'r prosiectau a gefnogwyd yn 2020 - 21 wedi darparu dros 8,566 awr o gyfleoedd gwirfoddoli, sy'n gyfraniad arwyddocaol i fywyd ar draws y Parc Cenedlaethol.

## Rheoli'r Gronfa

Mae'r cynllun yn cael ei weinyddu gan y Tîm Datblygu Cynaliadwy. Mae ceisiadau'n cael eu hystyried gan gyfarfod ar y cyd o'r Panel Grantiau Ymgynghorol , sy'n cynnwys aelodau o'r gymuned ac Aelodau Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Y Panel Grantiau Ymgynghorol sy'n pleidleisio ar geisiadau i ddechrau ac mae'r penderfyniadau terfynol yn cael eu cymryd gan y chwe Aelod o'r Awdurdod.

## Casgliad

Roedd Covid 19 yn ddinistriol i ddatblygu ac i weithredu prosiectau yn y gymuned. Bydd yn cymryd amser i gymunedau ail ennill hyder i ddilyn prosiectau datblygu cynaliadwy creadigol unwaith eto. Gyda'r argyfwng newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn flaenllaw yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gyfer 2022 i 2027, byddwn yn canolbwyntio ar annog a chynghori'n hymgeiswyr ar ddatblygu prosiectau a fydd yn arwain at y newidiadau rydym ni, a hwythau, y eu dymuno.





# Crynodebau'r Prosiect

## Prosiect Gwirfoddolwyr Cadwraeth y Bele - Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyfanswm Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o £15,370 dros 4 blynedd
Taliad Grant yn 2020 – 21: £548

Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent a Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent yn dal i fod yn bartneriaid gweithgar; mae'r cyntaf yn darparu arbenigedd ac mae Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent yn cyfrannu adnoddau gweithdy, staff ac amser gwirfoddolwyr. Effeithiodd y pandemig Covid ar y prosiect hwn fel ag ar lawer o rai eraill ac, i bob pwrpas, daeth y gwaith i ben yn ystod y flwyddyn diwethaf. Llwyddodd gwirfoddolwyr o'r Gwasanaeth i gwblhau adeiladu'r holl focsys gwâl ychydig cyn y cyfnod clo Covid-19 ac erbyn hyn maen nhw'n cael eu gosod. Bydd cyfranogwyr yn eu prosiect iechyd meddwl dynion yn mynd trwy ddelweddau'r camerâu yn y trapiau yn ystod y misoedd i ddod, gan helpu i nodi'r gwahanol anifeiliaid sydd wedi'u dal ar ffilm.

Mae'r gwirfoddolwyr yn dechrau ail osod y trapiau camera yn ôl allan ac eisoes cafwyd fideo o Garw Coch yn nwyrain y Parc Cenedlaethol, a hefyd Gyffylog – rhywogaeth restredig o adar ar y rhestr goch. Y gobaith yw, y bydd y Bele'n cael ei weld! Mae popeth sy'n cael ei weld yn cael ei adrodd i'r Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:




## Cynllun Prentisiaeth Arweinwyr Amgueddfa – Big Pit

Cyfanswm Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o £67,684 dros 4 blynedd
Taliad Grant a wnaed yn 2020 – 21: dim oherwydd Covid

Roedd yr arian i fod i ddod i ben yn 2020 / 21, ond roedd yr amgueddfa ar gau oherwydd Covid am y rhan fwyaf o'r cyfnod. Mae'r balans o £11,281 wedi'i gario ymlaen i 2021 / 22 er mwyn cwblhau'r rhaglen yn ôl y bwriad.

"Cafodd y rhaglen brentisiaeth yn Big Pit, fel y rhan fwyaf o'r byd, ei heffeithio'n ddifrifol gan y pandemig Covid-19 a darodd fis Mawrth 2020. Daeth ymweliadau o dan ddaear i ben a dim ond ar ddau achlysur, am ychydig o wythnosau ar y tro, y llwydodd yr amgueddfa i agor fel atyniad ar yr wyneb. Amharodd hynny'n fawr ar ein holl raglenni hyfforddiant ac ar ein ffynonellau o incwm ond, a diolch am hynny, roedden ni'n gallu defnyddio 'Cynllun Cadw Swyddi' Llywodraeth y DU i ddiogelu'n gweithgareddau ar gyfer y dyfodol. Cafodd Emma a Lee, dau brentis, eu cynnwys yn y broses hon ynghyd â'r rhan fwyaf o'n staff am gyfnodau mawr o'r flwyddyn. Diolch byth, erbyn hyn, rydym ar agor yn llawn – ar yr wyneb ac o dan ddaear." Huw Jones, Rheolwr y Pwll

Mae Emma a Lee wedi cwblhau eu holl hyfforddiant i gadw eu cymhwyster fel arweinwyr o dan ddaear. Pasiodd y dau eu NVQ Lefel 2 yn llwyddiannus o'r MPQC (Mineral Products Qualification Council [Cyngor Cymhwyso Cynnyrch Mwynau]) i hebrwng ymwelwyr â'r pwll. Maen nhw wedi symud ymlaen i ddod yn

Arweinwyr Tan Ddaear ac yn mynd ag ymwelwyr ar deithiau'n rheolaidd. Mae'r ddau erbyn hyn yn cael eu cyflogi'n llawn amser.

Mae cymorth grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy heb os wedi helpu Big Pit i barhau i gynnig profiad unigryw o fynd o dan ddaear mewn pwll glo gwirioneddol yn Ne Cymru. Mae'r rhaglen brentisiaeth sy'n rhan hanfodol o'n cynllun dilyniant staff, sydd, erbyn hyn, yn cyflogi saith prentis crefftau mwyngloddio, un prentis peirianeg mwyngloddio ac un prentis trydanol mwyngloddio. Byddwn yn recriwtio rhagor o brentisiaid cyn bo hir. Rwy'n wirioneddol o'r farn fod yr arian a ddaeth oddi wrth gronfa datblygu cynaliadwy Awdurdod y Parc a'r gefnogaeth wych oddi wrth Swyddogion y Gronfa ar yr union bryd, wedi ysgogi'r amgueddfa i weithredu, a oedd yn hanfodol os yw Big Pit i barhau i gynnig profiad gwirioneddol o dan ddaear i'n miloedd o ymwelwyr yn y dyfodol.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:




## Stroc mewn Oedolion Ifanc – Prifysgol Metropolitan Manceinion

Cyfanswm y Grant Datblygu Cynaliadwy £46,546 dros 4 years
Taliad Grant yn 2020-21: £9,522

Mae'r prosiect ymchwil Doethuriaeth gyda Phrifysgol Fetropolitan Manceinion erbyn hyn yn ei drydedd flwyddyn. Er gwaethaf cyfyngiadau Covid, mae'r fyfyrwraig Rebecca Clarke wedi parhau â'i gwaith yn y Parc Cenedlaethol, yn ymchwilio i ffurf newydd o ail sefydlu ar ôl strôc gan ddefnyddio'r effeithiau positif y mae'r amgylchedd awyr agored naturiol yn ei gael ar iechyd a llesiant.

Strôc yw'r achos pennaf o anabledd difrifol mewn oedolion yn y DU. Yn ôl y Gymdeithas Strôc, mae tua 150,000 o bobl yn cael strôc pob blwyddyn ac mae un o bob pedwar o'r rhain o dan 65 oed. Nid yw'r rhan fwyaf o oedolion ifanc sydd wedi cael strôc yn gallu gwneud tasgau byw pob dydd, dychwelyd i'r gwaith, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol na chymryd rhan mewn gweithgaredd awyr agored,





sy'n golygu eu bod yn treulio mwy o amser o dan do, heb lawer o annibyniaeth, ac yn dioddef o unigedd cymdeithasol ac iselder.

Effeithiodd Covid 19 gryn dipyn ar raglen ail sefydlu cerdded yn yr awyr agored y prosiect. Fodd bynnag, sefydlwyd mesurau i leihau'r perygl bod cyfranogwyr yn heintio'i gilydd. Mae'r Byrddau Iechyd yn fodlon gyda'r rhain ac ail ddechreuodd y rhaglen fis Gorffennaf 2021 – yng Nghanolfan Addysg Awyr Agored Gilwern gyda 12 yn cymryd rhan.

Ar ôl adolygiad, cyflwynodd Rebecca bapur - 'Physiothearpy Theory and Practice' - i'r cyfnodolyn Disability and Rehabilitation, ac mae'n dal i weithio ar ei thraethawd - gan anelu at gofnodi'r canlyniadau a'r casgliadau'n ddiweddarach yn 2021. Mae hefyd wedi arbrofi gyda defnyddio gwahanol feddalwedd ar gyfer dadansoddi data, gan gynnwys Visual 3D (sy'n digideiddio data biomecaneg cerdded) a MATLAB (sy'n cynhyrchu graffau sy'n benodol i'r pelfis, clun, pen-glin a'r ffêr.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:




## System Trin Da Byw – Cymdeithas Porwyr Glanaman, Pedol & Twrch

Cyfanswm Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o £7,200
Taliad Grant yn 2020 – 21: £7,200

Daeth y corlannau pren trin da byw, a osodwyd beth amser yn ôl ym Mrynaman gan Goleg Amaethyddol Gelli Aur gyda chefnogaeth Wardeiniaid Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mor boblogaidd, nes, ar ôl iddyn nhw ddod at ddiwedd eu hoes, penderfynodd y gymuned leol gael rhai yn eu lle. Roedd amrywiaeth eang o grwpiau ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig y Mynydd Du yn eu defnyddio (porwyr, yr RSPCA, Ymddiriedolaeth Horse and Pony Lluest er enghraifft) i ddal a didoli defaid a cheffylau crwydrol ac i drin anifeiliaid gwael.

Yn dilyn cyfarfodydd cymunedol ymgeisiodd Cymdeithas Porwyr Glanaman, Pedol a Thwrch am grant gan

y Gronfa Datblygu Cynaliadwy i ail adeiladu ac i ymestyn y corlannau mewn dur - er mwyn gallu wrthsefyll amodau caled a heriol y mynydd. Mae'r corlannu, sydd wedi'u hadeiladu gan gontractwr lleol, erbyn hyn yn cynnwys ras fwy a gwasgfa gwartheg - ynghyd â chyflenwad dwr. Mae'r ochrau uwch yn helpu i gadw'r anifeiliaid yn ddiogel, i gadarnhau Adnabyddiaeth / sglodion clust ac i roi unrhyw driniaeth angenrheidiol.

Mae gwaith y cymdeithasau pori'n amhrisiadwy – yn helpu i leihau'r perygl o losgi bwriadol a thannau gwyllt – sy'n hanfodol yn yr ardal hon lle mae hynny'n berygl. Mae cael amrywiaeth o anifeiliaid pori – gwartheg yn ogystal â defaid a merlod – yn helpu i gadw Molina (glaswellt y bwla piws) i lawr, sy'n creu carpedi o ddeunydd sych trwchus pan mae'n marw – tanwydd perffaith. Mae rheoli cynefin yn gynaliadwy'n hanfodol – mae ecoleg y mynydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y tebygrwydd a fydd yn cael ei ddinistrio gan dân.

Mae gosod corlannau trin da byw yn strategol o gwmpas y Mynydd Du (a gobeithio, cefnogaeth yn y dyfodol ar diroedd comin eraill sy'n ffurfio rhan o'r Mynydd Du) yn gam positif tuag at gydweithio a rheoli tir yn well yn y tymor hir.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:




## Muddy Care

Cyfanswm Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o £9,180 dros ddwy flynedd
Taliad Grant yn 2020 – 21: £3,000

Cwmni Buddiant Cymunedol yn Nhalgarth yw Muddy Care sy'n darparu addysg awyr agored, ecotherapi a chefnogaeth ailsefydlu tymor hir i bobl gyda chyflyrau meddygol cronig, ac, erbyn hyn, Covid Hir.
Mae'r rhaglenni'n canolbwyntio ar y person, yn talu sylw i anghenion emosiynol a seicolegol a chorfforol,







gan gefnogi datblygiad personol.

Cefnogodd grant Cronfa Ddatblygu Cynaliadwy brosiect peilot er mwyn asesu a dangos effeithiolrwydd y dull hwn, gyda thua 12 yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hamdden a gweithdai yn y Parc Cenedlaethol a thu hwnt. Roedd sesiynau'n cynnwys cyfeiriadu, cerdded a thrafod iechyd a hunan ofal, rhoi tro ar feiciau batris ayb. Dyluniwyd y prosiect i barhau am naw mis, ond, gyda Covid, rhedodd am dros ddwy flynedd, gyda manteision annisgwyl. Cafodd y fformat ei addasu a'i ail ddylunio gyda'r cyfranogwyr yn chwarae rhan lawn ac sicrhau eu bod yn dal i dderbyn cefnogaeth yn ddiogel mewn amgylchiadau cyfnewidiol – y cyfan yn ddysgu defnyddiol.

Dengys yr arfarniad cychwynnol:

- erbyn haf 2021, roedd dros hanner y cyfranogwyr wedi gostwng eu meddyginiaeth gan dros 50% ers dechrau Muddy Care, ac wedi cael llai o ail waelu.
- roedd llesiant pob un o'r cyfranogwyr wedi gwella'n gyson, yn gyffredinol
- ni wnaeth unrhyw un adael – roedd pob un a gafodd ei recriwtio ym mis Tachwedd 2019 yn dal i fynychu sesiynau.
- mae busnesau lleol wedi elwa gyda e.e. llogi beiciau o Drover Cycles, ymweliadau â chaffis a bwytai.
- mae gan y rhai oedd yn cymryd rhan lawer gwell dealltwriaeth a gwybodaeth o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – ymweld ac archwilio ardaloedd llai cyfarwydd.

Mae'r adborth oddi wrth y cyfranogwyr yn bositif iawn:

Pan ddechreuais gyntaf gyda Muddy Care dim ond bodoli oedd fy mywyd. Yr unig adegau roeddwn i'n gadael y ty oedd i fynd i apwyntiadau ysbyty ac roedd gen i gryn dipyn ohonyn nhw. Roeddwn i'n dal i ddod i delerau gyda'm diagnosis, ychydig iawn o gefnogaeth oeddwn i'n ei gael a dim bywyd cymdeithasol. Mae Muddy Care wedi newid fy mywyd. Rwyf wedi gwneud pethau anhygoel nad oeddwn byth yn meddwl eu bod yn bosibl.

Pan mae gennych gyflwr iechyd cronig mae'ch bywyd yn mynd yn llai, yn dywyllach, ac yn fwy pryderus. Mae mynd allan i ganol byd natur yn gallu bod yn heriol ac yn aml mae'n anodd cynnal yr ysgogiad a'r dewrder. Mae yna gymaint o fanteision iechyd, meddyliol, corfforol ac ysbrydol, o fod y tu allan ac o gysylltu â natur a'r awyr agored – ond hyd yn oed mewn gwybod fod yna cymaint o rwystrau. Mae Muddy Care yn torri trwy'r rhain trwy ddarparu'r modd, yr ysgogiad a'r atebolrwydd sydd ei angen.





Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau Muddy Care wedi dangos i mi nad yw bod â chyflyrau cronig yn golygu eich bod yn gorfod rhoi'r gorau i wneud pethau, gallwch eu haddasu a'u gwneud mewn ffordd wahanol.

Sefydlwyd partneriaethau gwaith gyda gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Abertawe a Chaerdydd ac mae astudiaethau peilot ar y gweill gyda'r uned Anafiadau'r Ymenydd yn Ysbyty Treforys a'r Ganolfan Adfer Niweidiau i Linyn yr Asgwrn Cefn, Caerdydd.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:




## Unedau Dechrau Mân-werthu – Ymddiriedolaeth Castell y Gelli

Cyfanswm Grant Cronfa Datblygu Cynaliadwy o £11,000
Taliad Grant yn 2020 – 21: £11,000

Cafodd Ymddiriedolaeth Castell y Gelli ei ffurfio yn 2011 er mwyn prynu Castell y Gelli, safle sy'n cynnwys Plasty Castell y Gelli, rhestredig Gradd I, Heneb Restredig, nifer o adeiladau allanol a gerddi cofrestredig.

Mae'r prosiect adnewyddu £6.5 miliwn yn cynnwys mynedfa at ben y t□r Normanaidd, to newydd i'r plasty, oriel arddangos, gofod addysg ac ystafelloedd hyblyg, aml ddefnydd trwyddo. Bydd y porth hynafol yn cael ei ail agor ac yn ail gysylltu'r dref a thiroedd y Castell. Bydd sgiliau adeiladu traddodiadol yn cael eu dysgu yn y tiroedd a bydd caffi yn y cyn gerbyty. Bydd yr incwm a ddaw o logi preifat yn cefnogi cynnal a chadw, a llu o ddefnydd cymunedol.

Roedd gwaith adeiladu ar Gastell y Gelli'n parhau gydol 2021. Er y bu oedi sylweddol ar y prosiect, disgwylir y bydd y prif waith a'r gwaith wedi'i ariannu o'r Gronfa Ddatblygu Cynaliadwy i uwchraddio pum uned fân werthu ar y safle, wedi'i orffen yn gynnar yn 2022.

Bydd y siopau bach hyn yn cael cynnig i fusnesau lleol sy'n dechrau arni (megis Bobbin Sisters yn y llun) gan gynnig cyfle i entrepreneuriaid lleol rentu lle am bris fforddiadwy er mwyn dechrau eu busnes. Mae'r lleoedd unigryw hyn yn ddelfrydol ar gyfer busnesau neu grefftwyr sydd angen rhent isel ac hefyd lawer o bobl i ddod i mewn ar hyd y lôn goblog llawn cymeriad. Mae'r unedau siopau wedi'u defnyddio'n llwyddiannus yn y gorffennol gan nifer o fusnesau a ddechreuodd yng Nghastell y Gelli ac sydd, erbyn hyn, wedi datblygu a symud i eiddo mwy yn y dref. Dechreuodd busnes leol Eighteen Rabbit, er enghraifft, eu busnes mewnforio Masnach Deg ar lein, ac yna dyfu eu busnes siop yn ystod y dwy flynedd yng Nghastell y Gelli gan dalu ond rhent isel iawn ac erbyn hyn mae ganddyn nhw siop fwy yng nghanol y dref. Hefyd, dechreuodd Beer Revolution dyfu'r busnes yn gwerthu cwrw arbenigol a lleol mewn un o'r lleoedd bychan ac



yna symud i'r dref.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:




## Rheoli Cynefin Allt yr Esgair – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyfanswm Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o £4,514 dros ddwy flynedd
Taliad Grant yn 2020 – 21: £2,684

Bryngaer o'r Oes Haearn yw Allt-yr-Esgair ac mae'n Heneb Restredig, saith milltir i'r de o Aberhonddu yn nyffryn Afon Wysg. Er nad yw'n un o'r mannau uchaf ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae'r golygfeydd o'r brig yn banoramig. Cefnogodd grant o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy brosiect partneriaeth gyda thirfeddianwyr a rheolwyr tir lleol, oedd yn cynnwys amrywiaeth o waith cadwraeth a gwelliannau mynediad ar y llwybr ceffyl poblogaidd ar y tir comin sy'n rhedeg ar asgwrn cefn y bryn trwy'r fryngaer,

O dan oruchwyliaeth arbenigwyr a thîm Gwardeniaid Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, cynhaliodd hyfforddeion Ymddiriedolaeth y Tywysog arolygon cynefin, clirio llystyfiant ucheldir, codi a thrwsio waliau cerrig sych, gwella hawliau tramwy a monitro archeolegol. Mae atgyweirio'r waliau, sy'n rhannu tir ym mherchnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a'r comin, sy'n cael ei reoli gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn cefnogi'n uniongyrchol bori cadwriaethol Newton Farm, trwy sicrhau fod terfynau'r ardal yn cadw'r stoc yn ddiogel ac mae'r gwella wyneb y llwybr ceffyl yn golygu na fydd yn rhaid gwneud gwaith rheoli ar yr heneb yn y dyfodol. Mae cael gwared ar brysgwydd, rheoli rhedyn a phorfa garw o fudd i flodau gwyllt, prif blanhigion bwyd a dodwy wyau larfa i loÿnnod byw.

Cyfrannodd gwirfoddolwyr a thirfeddianwyr lleol, rhyngddyn nhw, ac yn rhyfeddol, £10,000+ mewn amser a'r gwasanaethau a ddarparwyd.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:





## Gwella Adnoddau a Monitro'r Ystlum Bedol Leiaf – Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent

Cyfanswm Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o £10,000
Taliad Grant yn 2020 – 21: £10,000

Galluogodd y grant Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent i gynnal gwaith atgyweirio a chynnal a chadw hanfodol mewn pedwar o'i warchodfeydd yr ystlum bedol leiaf yn Nyffryn Wysg Uchaf. Ar y safleoedd hyn mae canran fawr o boblogaeth leol yr ystlum bedol leiaf ac yma hefyd mae clwydfan famolaeth fwyaf yr ystlum bedol leiaf ym Mhrydain. Mae'r gwaith wedi gwella mynediad a diogelwch i staff a gwirfoddolwyr ac wedi sicrhau fod yr amodau clwydo gorau ar gael trwy atgyweirio a chynnal ffabrig yr adeiladau.

Cyflogwyd contractwyr lleol i ymgymryd â'r gwaith, gan ddefnyddio deunyddiau lleol ble bo'n bosibl. Er bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar weithgareddau gwirfoddolwyr yn ystod y 12 mis diwethaf, mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent ar hyn o bryd yn recriwtio ac yn hyfforddi 15 – 50 o wirfoddolwyr lleol i gynorthwyo mewn cynnal a monitro ei safleoedd ym Mannau Brycheiniog, gan sicrhau fod cymunedau lleol yn cymryd rhan mewn gwaith cadwraeth ystlumod ac y bydd rheolaeth wrth gefn gynaliadwy ar gael yn y dyfodol. Mae uchelbwyntiau gwaith y Gronfa Datblygu Cynaliadwy'n cynnwys:

- Arolygon cyflwr a chynnal a chadw adeiladau: yn Buckland Coach House a Stablau Ffrwdgrech mae'r toeau a'r landeri wedi'u clirio a'u hatgyweirio
- Ardaloedd o gwmpas y safleoedd: mae waliau cerrig sych wedi'u hail adeiladu, gwnaed gwaith i reoli llystyfiant a choed, cytunwyd ar gynlluniau rheoli dolydd
- Gwaith i wella diogelwch y safle i staff a gwirfoddolwyr: mae rheiliau ac ysgolion wedi'u gosod i



sicrhau mynediad diogel mewn safleoedd allweddol.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:




## 44/45 Stryd Fawr, Aberhonddu

Cyfanswm y Grant Treftadaeth mewn Lleoedd £2,000
Taliad Grant yn 2020 – 21: £2,000

Mae cefnogi'r amgylchedd adeiledig a threftadaeth leol yn flaenoriaeth i'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Mae'r prosiect hwn yn ardal gadwraeth Aberhonddu wedi  helpu i ddiogelu adeilad rhestredig ac wedi codi canol y dref - yn ei wneud yn le mwy deniadol i drigolion ac ymwelwyr. Cafodd tu blaen y ddwy siop (un yn cael ei defnyddio gan elusen a'r llall fel busnes têc-awê) eu hadfer a'u paentio o dan oruchwyliaeth fedrus Uwch Swyddog Treftadaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Adeiladau Cadwraeth). Cafodd render wedi'i gracio ei drwsio, offer dwr glaw eu hail osod a weiriau rhydd eu tynnu.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:











## Dod i adnabod eich cymdogion – Menter dros Gadwraeth Natur Cymru

Cyfanswm Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o £8,252 dros ddwy flynedd
Taliad Grant yn 2020 – 21: £5,023

Sefydlwyd y Fenter yn 2018 fel Sefydliad Corfforedig Elusennol. Ei amcanion yw:

- hyrwyddo cadwraeth, amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol Cymru
- gwella addysg y cyhoedd ynghylch cadwraeth, amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol Cymru

Yn dilyn llwyddiant y Prosiect 'Cysylltiadau Cymunedol', oedd yn cael ei gefnogi gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, roedd y fenter hon yng Nghwm Aman yn canolbwyntio ar gysylltu ymhellach â'r gymuned leol. Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau yn anelu at hyrwyddo a deall, cofnodi a gofalu am rywogaethau yn yr ardal. Cafodd offer megis maglau gwyfynod a chanfodyddion ystlumod eu prynu at ddefnydd yn y tymor hir.

Cafodd y prosiect hwn ei effeithio'n ddifrifol gan y cyfyngiadau Covid - roedd teithiau cerdded y digwyddiadau a'r gweithgareddau ar stop am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ddiwethaf. Er gwaethaf hynny, mae gwaith wedi parhau mewn gwahanol ffyrdd. Cynhaliwyd cyrchoedd gyda grwpiau teuluol mewn partneriaeth â llyfrgell Gwaun Cae Gurwen. Llofnododd 57 o bobl i dderbyn taflen newyddion y prosiect, gyda phob rhifyn yn derbyn ymateb da a cwestiynau / sylwadau e-bost - darparodd pobl leol eu hanesion a'u lluniau eu hunain.

Rhoddwyd benthyg maglau gwyfynod a chanfodyddion ystlumod (a phecynnau hyfforddi) i tua 15 o deuluoedd – mae'r teuluoedd yn dychwelyd manylion / adnabyddiaeth o'r rhywogaethau a nodwyd, sy'n cael eu logio a'u cyflwyno i'r Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth.
Mae gan y Fenter dros Gadwraeth Natur Cymru gysylltiadau agos gyda Chyngor Tref Cwmaman ac mae ganddi broffil uchel yn yr ardal – amhrisiadwy mewn hyrwyddo ymgysylltiad. Nawr bod yr offer wedi'i brynu, bydd y prosiect a'r gwaith ymgysylltu'n barhau.

"Yn 2016, cefais ddiagnosis o gancr ond, diolch am hynny, atebodd llawdriniaeth y broblem. Fel ag yr oeddwn yn cael fy iechyd yn ôl, dywedwyd wrth fy ngwr fod ganddo ef gancr hefyd ac yn anffodus bu farw





o fewn tri mis o'r diagnosis. Roeddwn i wedi'm llorio a doedd dim ystyr i fywyd. Roedd popeth yn ormod o ymdrech ac roedd hyd yn oed fy ngardd annwyl yn cael ei hesgeuluso gan nad oedd gen i ddiddordeb ynddi nac yn wir, mewn unrhyw beth arall. Newidiodd hynny i gyd ar ôl i mi gyfarfod Rob a chymryd rhan mewn gwirfoddoli gyda'r Fenter.

Ers hynny rwyf wedi bod ar deithiau cerdded ystlumod ac wedi crwydro'r cefn gwlad sydd o amgylch yn cadw llygad ar yr wybedog cefnddu, ymysg pethau eraill. Yn ystod un o'r cyrchoedd, gwelais gog fyw am y tro cyntaf yn fy mywyd. Byddaf wastad yn cofio sefyll ar ochr y bryn gyda gweddill y gr□p, yn annog gorhedyddion y waun wrth iddyn nhw heidio ar yr ysbeiliwr. Am wefr! Rwyf hefyd wedi bod yn monitro cwpl o faglau camera, y ddau'n edrych dros yr afon sy'n llifo heibio fy ngardd. Rwyf wedi bod wrth fy modd yn gweld gweithgareddau'r nos y gwahanol greaduriaid, gan gynnwys golygfa fythgofiadwy o dylluan frech yn cael bath yn y d□r bas. Mae hyd yn oed y wiwerod digywilydd sy'n sbarduno'r camerâu drosodd a throsodd yn fy niddori.

Gallai problemau iechyd, dod yn weddw'n sydyn ac arwahanrwydd y cyfnod clo fod wedi cael effaith ddinistriol arnaf i, ond dydw i byth yn teimlo'n unig nac yn ddiflas nawr. I'r gwrthwyneb, mae bywyd yn llawn diddordeb ac rwy'n edrych ymlaen bob bore at ddarganfod pa beth arall rwy'n rhannu fy myd gyda nhw."

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:




## Rhwydwaith Treftadaeth a Diwylliannol Aberhonddu – Dyfodol Ôl-Covid

Total SDF Grant £2,500 over two years
Grant payment in 2020-21: £1,250

Mae'r Rhwydwaith yn dod â sefydliadau, busnesau a gwirfoddolwyr treftadaeth a diwylliannol Aberhonddu at ei gilydd i godi ymwybyddiaeth o dreftadaeth a bywyd diwylliannol ac artistig gyfoethog y dref. Yr wyneb cyhoeddus yw 'Stori Aberhonddu' - porth gwefan ddwyieithog yn adrodd llawer o'r storïau hynod ddiddorol sydd yna am bobl a lleoedd yn ac o gwmpas y dref - yn eu perchnogaeth ac wedi'u creu ganddyn nhw. Mae'n anelu at ddod â chymunedau lleol at ei gilydd a hyrwyddo busnesau ac atyniadau lleol.

Cyn y pandemig Covid, roedd llawer o waith gwerthfawr wedi'i wneud yn casglu a chyhoeddi storïau'n ddigidol – oedd yn galluogi pobl i rannu a chyfnewid gwybodaeth a hanes trwy borth y wefan. Mae grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy'n cynnal cynlluniau ôl Covid y Rhwydwaith – datblygu'r porth ymhellach, cynyddu gallu, cynyddu gweithgaredd hyrwyddo a datblygu cynllun busnes tair blynedd ar gyfer y rhwydwaith. Mae'r gweithgareddau hyn hefyd yn helpu i gyrraedd targedau allweddol sydd yn y Cynllun Tref Aberhonddu newydd.

Mae storïau diweddaf a grëwyd ac a lanlwythwyd gan wirfoddolwyr ar borth Stori Aberhonddu'n cynnwys:

- Cyngerdd Bryn Terfel yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu yn cael ei gynnal gan Opera Metropolitan Efrog Newydd
- Yn y Lhyvyr Hwnn: yn sôn am stori brodor o Aberhonddu, Syr John Prys, awdur y llyfr cyntaf i'w gyhoeddi yn y Gymraeg
- Many paths to Brecon for Gurkhas: storiau o gymuned Aberhonddu am bobl Nepal
- Maer Benywaidd Cyntaf Cymru: wedi'i gyhoeddi ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched, dathliad o'r arloesol Gwenllian Morgan, o Aberhonddu, Maer benywaidd cyntaf Aberhonddu (a'r wraig gyntaf yng Nghymru i ddal swydd o'r fath) o 1910 - 11.
- Illumie: prosiect hyfforddi'r celfyddydau digidol 18 mis ar gyfer 'Gwneuthurwyr Delweddau' (oedran 16 – 25) – yn gweithio gydag artistiaid a phobl broffesiynol y diwydiant i 'ail-ddychmygu' Bannau Brycheiniog o'r ardal ehangach, gan greu cynnwys digidol newydd i'w arddangos yn Y Gaer.

Sicrhaodd y rhwydwaith hefyd grant oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i ddarparu hyfforddiant ar lein i'n gwirfoddolwyr. Yn cael ei ddarparu gan arbenigwyr yn y cyfryngau cymdeithasol, ffilm ac adrodd stori, mae'r rhaglen yn cynnwys materion megis golygu digidol ar ffonau clyfar, ffotograffiaeth ddigidol, cyflwyno i gamera, adrodd stori a chynnwys.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:








## Meddyliau Gwyrdd – Mind Aberhonddu

Cyfanswm Grant Cronfa Datblygu Cynaliadwy o £5,000
Taliad Grant yn 2020 – 21: £5,000

Mae Mind Aberhonddu a'r Cylch yn cefnogi pobl cymunedau gwledig De Powys sy'n cael eu heffeithio gan salwch a thrallod meddyliol.

Lansiwyd prosiect Meddyliau Gwyrdd yn gynnar yn 2020 gyda sesiynau eco therapi llwyddiannus i 12 o gyfranogwyr, oedd yn gwneud bocsys adar ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau plannu a thyfu. Cyfrannodd grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy at gostau staff i ddatblygu'r fenter ymhellach – gan ganolbwyntio ar greu gardd wenyn a bywyd gwyllt yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu a gardd bywyd gwyllt yn ysbyty Bronllys.

Ar ôl y cyfnod clo Mawrth 2020 addasodd y staff eu dulliau'n gyson er mwyn sicrhau diogelwch y cyfranogwyr. Datblygwyd adnoddau ar lein ar gyfer y rhai oedd eisoes yn gyfranogwyr ac ar gyfer y gymuned ehangach. Pan oedd yn bosibl, rhwng cyfnodau clo, roedd y sesiynau therapiwtig garddio a cherdded coetiroedd yn parhau ar adeg pan oedd pobl eu hangen fwyaf.

Mae'r ardd llesiant y tu ôl i swyddfeydd yr Eglwys Gadeiriol yn cynnwys gwelyau a borderi ar gyfer blodau lluosflwydd sy'n caru peillwyr yn gymysg â pherlysiau diddorol, bwytadwy ac sy'n iachau. Gobeithir y bydd yr ardd yn ysbrydoli synnwyr o dawelwch ac adfer yn ogystal â bod yn lle ar gyfer dysgu a thyfu. Mae aelodau o'r grwp wedi bod â rhan uniongyrchol mewn plannu ac adeiladu llwybrau o gerrig wedi'i ailgylchu o gwmpas yr ardd.

Roedd pobl yn gwerthfawrogi cymryd rhan yn fawr iawn:

"Cyn y cyfnod clo, roeddwn i'n gweithio fel gwirfoddolwr dros grwp Alzheimer.  Pan gafodd hynny ei atal, collais ran fawr o'm bywyd cymdeithasol hefyd, felly, mae bod yn rhan o grwp eto wedi bod o help mawr."

"Dydw i ddim yn adnabod llawer o bobl yn yr ardal ac mae'r cyfnod clo wedi gwneud i mi deimlo'n





wirioneddol ynysig, felly, mae gwybod fod y grwp yma'n wirioneddol dda."
"Rwy'n wirioneddol yn mwynhau cymryd rhan yn y sesiynau Meddyliau Gwyrdd. Mae'n helpu'n fawr i leddfu fy mhryder ac mae'n fy nghael i allan o'r ty hefyd, a'm cadw'n brysur." "Rwy'n teimlo'n well hefyd edrych ar ôl a chael fy nwylo yn y pridd."

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:




## Tir ac Entrepreneuriaid – Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ffermio

Cyfanswm Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o £15,264 dros ddwy flynedd
Taliad Grant yn 2020 – 21: £5,905

Mae'r fenter hon yn adeiladu ar lwyddiant y prosiect peilot 'Ein Bwyd Bannau Brycheiniog' a gafodd ei gefnogi gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy 2019 – 20, a ysgogodd diddordeb mewn cynyddu cynhyrchu a bwyta bwyd lleol. Roedd y canlyniadau'n cynnwys sefydlu dau fusnes garddwriaeth newydd yng Nghrug Hywel, ffermwyr yn cynnig tir a datblygu chwe phartneriaeth cadwyn gyflenwi newydd.

Gan weithio gyda rhanddeiliaid (llywodraeth leol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, ffermwyr), y weledigaeth yn gyffredinol yw bod traean o'r bwyd sy'n cael ei fwyta yn ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael ei dyfu'n lleol. Mae diddordeb cynyddol mewn cadwyni cyflenwi bwyd byrrach, lleol, - sy'n gostwng effeithiau allyriadau cludiant ac yn darparu swyddi a chyfleoedd lleol.

Mae nodau'r prosiect yn cynnwys:
- recriwtio entrepreneuriaid ffermio newydd
- gweithio gyda ffermwyr ar draws y rhanbarth i sicrhau fod tir ar gael ar gyfer entrepreneuriaid ffermio newydd heb dir.
- gweithio i sicrhau buddsoddiadau o arian cyhoeddus a phreifat ar gyfer mentrau newydd.
- hyrwyddo sgiliau mewn dulliau ffermio bychan, cynaliadwy o gynhyrchiant uchel, gan gychwyn gydag adnoddau ar lein a chefnogaeth cymheiriaid.

Gobeithir y bydd y 10 mlynedd nesaf yn gweld:
- siopau lleol a gwerthu ar lein fel y norm – y lle cyntaf i gael cynnyrch sy'n cael ei dyfu'n lleol.
- cynhyrchwyr yn gwerthu'n uniongyrchol – mwy o gysylltiad â'r cwsmer ac o elw i'r fferm.
- ffermydd teuluol yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi gan eu cymunedau lleol.
- cymunedau ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gallu bwydo eu hunain yn well ac aros yn gadarn.
- ffermio ecolegol fel y norm – sefydlogi carbon, adfer bioamrywiaeth, atal llifogydd
- dosbarthu bwyd yn lleol – cynhyrchwyr yn cael mynediad cynaliadwy i farchnadoedd lleol

Mae'r canlyniadau a'r gweithgareddau hyd yn hyn yn cynnwys:
- Sicrhau llain 10 erw oedd yn cael ei gynnig gan dirfeddiannwr yn y Fenni ar gyfer 3 – 4 menter.
- Sefydlu rhwydwaith cymheiriaid o ffermwyr a thyfwyr i gefnogi dechreuwyr newydd a chynnal dyddiau agored ar gyfer y mentrau adfywio sydd newydd eu sefydlu.
- Ystyried sefydlu Ymddiriedolaeth Tir rhanbarthol i gaffael a rheoli tir er mwyn cefnogi tirfeddianwyr

ac entrepreneuriaid ffermio. Erbyn hyn yn cael eu galw y gr□p 1200, maen nhw'n bwriadu sefydlu cymdeithas fuddiant cymunedol yn 2021 i godi arian i brynu tir ar gyfer entrepreneuriaid bychain sy'n tyfu bwyd.

- Cynnal trafodaethau ar lein rheolaidd ynghylch blaenoriaethau ffermio a thyfu ar gyfer marchnadoedd lleol yn y rhanbarth a sut i'w diwallu. https://www.iwa.wales/agenda/2021/06/how-to-rebuild-a-local-food-economy/
- Hyrwyddo'r prosiect yn barhaus trwy'r cyfryngau cymdeithasol – datblygu strategaeth gyfathrebu
- Datblygu'r ardal (Sir Fynwy a Bannau Brycheiniog fel Lle / Rhanbarth Fwyd Gynaliadwy)
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Sefydliad Cymunedol a'r Ganolfan Ariannu ar dichonoldeb arian grant newydd ar gyfer dechrau mentrau ffermio adfywiol.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:




## Offer Pwer Batri – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyfanswm Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o £8,736
Taliad Grant yn 2020 – 21: £8,736

Mae offer newydd yn cael eu pwer gan fatris wedi bod o help enfawr i'r grwpiau o wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda gwardeiniaid i gadw rhwydwaith o lwybrau troed a llwybrau ceffyl y Parc Cenedlaethol ar agor i bawb eu defnyddio.

Oherwydd y cyfnod clo haf diwethaf, ni chafodd y llwybrau eu clirio yn ôl yr arfer – daeth yr holl raglenni gwaith i ben. Pan gafodd y cyfyngiadau eu codi roedd llawer o wirfoddolwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn awyddus i fynd allan yn eu cymunedau lleol i helpu gyda rheoli'r Hawliau Tramwy. Mae'r offer newydd wedi bod yn hwb enfawr i'r grwpiau sydd wedi arfer defnyddio offer trin â llaw. O





ganlyniad, roedd yn bosibl agor yn gymharol gyflym, nid yn unig y llwybrau wedi'u tagu ac heb eu cyffwrdd ers yn gynnar yn 2020 – ond, o ganlyniad, llawer mwy – gan alluogi mwy o fynediad i bawb.

Mae pawb - yn wirfoddolwyr a gwardeiniaid - yn edmygu'r offer newydd a'r dechnoleg sy'n eu rhedeg. Maen nhw'n dawelach a heb unrhyw nwyon petrol i boeni neb bellach. Maen nhw hefyd yn ysgafnach ac yn crynu llai - ac o ganlyniad yn effeithio llai yn gorfforol ar ddefnyddwyr.
Mae wedi bod yn drawsnewidiad i'r timoedd warden a gwirfoddolwr - mae'r dyfodol yn wyrdd, gyda llawer o'r cerbydau eisoes yn symud i drydan, yn cael eu gwefru gan baneli foltaig ffoto Awdurdod y Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei hunan.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:




## Gwasanaethu Cychod ar Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu

Cyfanswm Grant Cronfa Datblygu Cynaliadwy o £3,000
Taliad Grant yn 2020 – 21: £3,000

Mae'r 500+ o gychod sy'n weithgar ar y gogoneddus Gamlas Sir Fynwy ac Aberhondduyn gwau ei ffordd trwy'r Parc Cenedlaethol, dod ag incwm sy'n fawr ei angen i fusnesau a chymunedau lleol. Yn ôl y gyfraith, mae gofyn i bob cwch fod â thystysgrif diogelwch cyfredol, felly mae gofyn mawr am wasanaethau archwilwyr hollol gymwys.

Fodd bynnag, mae archwilwyr yn brin – dim ond dau gant a hanner o ymarferwyr hollol gymwys sydd yn y





DU ac ychydig iawn o bobl sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant dwys. Pan oedd yr unig un yn ne Cymru'n barod i ymddeol, roedd angen cynllun wrth gefn. Yn ffodus, roedd Ian Cooper, sy'n hunan gyflogedig ac eisoes yn rhedeg gwasanaeth trwsio lleol wedi camu i'r bwlch. Mae grant o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cefnogi hyfforddiant Ian (sy'n cynnwys cyrsiau ar lein a phreswyl ac asesu ymarferol trylwyr) ac yn helpu i gadw holl gychod Mynyw ac Aberhonddu i symud. Wrth i'w lwyth waith gynyddu, mae'n gobeithio cyflogi person ifanc fel cydweithiwr.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:




## Cynllun Rheoli Garn Goch, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyfanswm Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o £677
Taliad Grant yn 2020 – 21: £677

Mae hwn wedi bod yn brosiect partneriaeth llwyddiannus dros ben, yn dod â phartneriaid sgilgar at ei gilydd i weithio ar y problemau rheoli cymhleth sydd ar Fryngaer Garn Goch – Heneb Restredig sy'n cael llawer o ymwelwyr ac sydd hefyd yn Gomin cofrestredig pwysig i borwyr. Mae ym mherchnogaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gyda 10 o ddaliadau hawliau pori wedi'u cofrestru.

Y broblem: daeth pori i ben tua 10 mlynedd yn ôl, pan dynnwyd y defaid a merlod olaf oddi ar y comin. O ganlyniad, symudodd prysglwydd a rhedyn i fyny'r llethrau tuag at y fryngaer, gan fygwth ei integriti, a daeth y rhostir yn beryglus i ddefaid a allai gael eu dal yn y mieri.

Bu PONT (Pori, Nature & Threftadaeth) yn gweithio gyda staff Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau



Brycheiniog a phorwyr i ganfod pam y daeth y pori i ben ac i asesu'r awydd am ail ddechrau pori'r comin. Nododd y prif borwr mai cerddwyr cwn anghyfrifol oedd y brif broblem. Roedd baw cwn yn bryder parhaus oherwydd y perygl o heintio gwartheg â Neosporosis (mae'n achosi anffrwythlondeb) a defaid â Toxoplasmosis - afiechydon nad yw'r cyhoedd yn eu deall yn dda iawn. Oherwydd cwynion oddi wrth y cyhoedd oedd ofn y gwartheg a merlod, fe'u tynnwyd oddi ar y comin.

Y cynllun: ar ôl y cyfweliadau cyntaf gyda'r porwyr dechreuwyd ar ymgyrch cysylltu â'r cyhoedd. Cynhaliwyd arolygon gyda cherddwyr cwn lleol; cafodd ardaloedd lle'r oedd baw cwn yn broblem eu mapio a chodwyd arwyddion. Gosododd PONT abwydfa baw cwn, peiriant cyflenwi bagiau baw cwn ac arwyddion roedd y porwyr yn gofyn amdanyn nhw – a dosbarthwyd taflenni yn y gymuned leol. Dangosodd monitro nad oedd yr abwydfa yn y lle gorau, cafodd ei symud.

Canlyniadau: dangosodd ymweliadau dilynol fod y gwaith wedi arwain at lawer llai o faw cwn ar Garn Goch. O ganlyniad, cyflwynwyd gyrr o 20 o wartheg Dexter i'r Comin yn yr Hydref 2018 a chodwyd arwyddion i hysbysu'r cerddwyr. Mae'r gwartheg wedi gwneud gwaith gwych yn taclo'r prysglwyddi trwchus oedd wedi ymledu. Yn fuan, bydd gwirfoddolwyr Awdurdod y Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn helpu gyda gwaith pellach i reoli prysglwydd ar y fryngaer.

Gwaith ar y gweill yw hyn fodd bynnag, oherwydd, yn anffodus, mae'r Dexters wedi dioddef o TB yn ddiweddar sydd wedi effeithio'n drychinebus ar y ffermwyr ar y fryngaer a rhai gerllaw. Mae'n amlwg mai pori cymysg yw'r ffordd orau a mwyaf cynaliadwy o reoli ardaloedd yr ucheldir gyda statws Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, felly bydd hyn yn cael ei barhau pryd a ble mae'n bosibl yn y gobaith o ganfod atebion yn y tymor hir.

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dilynol:



PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS NATIONAL PARK

Parc Cenedlaethl Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon,
Ffordd Cambrian, Aberhoddu, LD3 7HP
07973 781479
enquiries@beacons-npa.gov.uk